Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf.DL334**

**Amseru: Brys**

**Teitl: Cynllun Peilot gyda Paladin – Gwasanaeth Eiriolaeth Stelcian Cenedlaethol**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid / Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:**

Gall dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol gael cymorth arbenigol trwy wasanaethau'r Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig a'r Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol a gomisiynir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.Lle mae dioddefwyr yn profi stelcian o fewn cyd-destun cam-drin domestig neu drais rhywiol, gall yCynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol ddarparu cymorth arbenigol.

Fodd bynnag, nid oes cymorth arbenigol o'r fath ar gael ar hyn o bryd i ddioddefwyr stelcio lle nad oes unrhyw elfen o gam-drin domestig neu drais rhywiol. Polisi blaenorol Heddlu Dyfed-Powys oedd atgyfeirio dioddefwyr stelcian risg uchel i Paladin i gael cymorth, ond oherwydd y galw, y gallu a'r cyfyngiadau ariannu, nid yw Paladin ar hyn o bryd yn gallu derbyn atgyfeiriadau gan Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer dioddefwyr risg uchel. Felly adnabuwyd yr angen am Weithiwr Achos Eirioli Annibynnol ar Stelcio i gefnogi dioddefwyr stelcio risg uchel ar draws ardal Dyfed-Powys. Ategwyd hyn ymhellach gan dystiolaeth gan Heddlu Dyfed-Powys yn dangos niferoedd y dioddefwyr risg uchel nad ydynt felly yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd.

Cafwyd papur cynnig gan Paladin, sydd ar hyn o bryd yn cael eu cydnabod fel arweinwyr marchnad o ran arferion gorau cenedlaethol ar gyfer darparu cymorth Gweithiwr Achos Eirioli Annibynnol ar Stelcio. Mae'r opsiwn a ffefrir yn cynnig eiriolaeth i ddioddefwyr stelcio risg uchel drwy'r system cyfiawnder troseddol, a chynnig cymorth tymor byr/cyngor untro i ddioddefwyr risg isel a risg canolig. Mae hyn yn sicrhau lefel o gymorth i bob dioddefwr stelcian. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a fydd yn sicrhau bod gwasanaethau presennol fel Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol yn meddu ar y sgiliau priodol i gefnogi dioddefwyr stelcian.

Cynigir bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal fel cynllun peilot am 12 mis o 1 Medi 2024. Bydd hyn yn darparu tystiolaeth i benderfynu ar gynnig tymor hwy ar gyfer y gwaith o ddarparu gwasanaethau.

**Argymhelliad:**

Cymeradwyo'r gwaith o gomisiynu gwasanaeth peilot pwrpasol gyda Paladin, gan ymgorffori Gweithiwr Achos Eirioli Annibynnol ar Stelcio llawn amser a hyfforddiant ar gyfer 60 o weithwyr proffesiynol. I gychwyn o 1 Medi 2024 am gyfnod o 12 mis.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** [signature] **Dyddiad: 05/06/2024**